# MANIFFESTO

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

2025

01970 639950 ucac@ucac.cymru ucac.cymru

# Cyflwyniad

Mae Rhaglen Llywodraeth Cymru 2021-26 yn nodi amryw o amcanion uchelgeisiol ar gyfer byd addysg yng Nghymru ac yn datgan ei bod am 'barhau â'[i] rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi'.

Dyna oedd y nod a osodwyd yn 2021, ond hyd yma, nid yw'r nod hwnnw wedi'i gyrraedd. Wrth agosáu at 2026, rydym yn wynebu heriau sylweddol ac nid oes unrhyw amheuaeth fod y system addysg yng Nghymru yn mynd drwy gyfnod argyfyngus. Prinder athrawon, prinder adnoddau, ymddygiad heriol dysgwyr a rhieni, llwyth gwaith affwysol ….ac eto rhaid cofio mai addysg yw dyfodol ein gwlad a bod 'dyfodol Cymru yn dibynnu ar lwyddiant ein plant a'n pobl ifanc'.
O ystyried hynny mae'n hollbwysig bod unrhyw Lywodraeth, o ba bynnag blaid wleidyddol, yn rhoi sylw gofalus iawn i'r gyfundrefn addysg, er mwyn sicrhau'r dechrau gorau posibl a'r cyfleoedd gorau posibl i blant ac ieuenctid ein gwlad.

Yn y maniffesto hwn, mae UCAC yn cyflwyno ei ddyheadau ar gyfer byd addysg. Ein nod ni yw sicrhau'r dyfodol gorau i'n plant a'n pobl ifanc a'r amodau gwaith gorau i'n haddysgwyr. Credwn fod y naill beth a'r llall yn mynd law yn llaw ac nad oes modd eu gwahanu.

01970 639950 ucac@ucac.cymru ucac.cymru

# Ein maniffesto

Rydym yn sefyll dros yr hyn sy'n bwysig – yn amddiffyn, yn ymgyrchu, ac yn gweithredu dros newid go iawn.

U

## UCHAFSWM ORIAU GWEITHIO WYTHNOSOL

Sicrhau bod ffiniau pendant i ddiwrnod gwaith addysgwyr

C

## CYLLID YSGOLION

Sicrhau bod ein hysgolion yn cael eu cyllido'n deg, fel bod digon o staff a digon o adnoddau

A

## AMODAU GWAITH

Sicrhau bod addysgwyr yn gallu canolbwyntio ar eu priod waith – addysgu plant a phobl ifanc

C

## CYMRAEG

Sicrhau bod statws haeddiannol i'r Gymraeg a bod cyfleoedd realistig a gwerthfawr i hybu ac ehangu'r defnydd ohoni

01970 639950 ucac@ucac.cymru ucac.cymru

# UCHAFSWM ORIAU GWEITHIO WYTHNOSOL

Sicrhau bod ffiniau pendant i ddiwrnod gwaith addysgwyr

---

Y sefyllfa bresennol:

- **Mae athrawon yn gweithio oriau hir – yn paratoi gwersi, yn marcio, yn asesu gwaith dysgwyr, yn mynychu cyfarfodydd ar ôl ysgol – cyfarfodydd staff, cyfarfodydd rhieni, cyfarfodydd adran, hyfforddiant e.e. CBAC**
- **Yn y ddogfen Cyflog ac Amodau Gwaith Athrawon 2025, mae yna bennawd 'Oriau penodedig' sydd yn gamarweiniol. Ar y naill law nodir,**

*'Rhaid i athro a gyflogir yn llawn amser fod ar gael i gyflawni dyletswyddau o'r fath ar y cyfryw adegau ac yn y cyfryw leoedd ag a nodir gan y pennaeth (neu, os nad yw'r athro wedi cael ei neilltuo i ysgol benodol, gan y cyflogwr neu gan bennaeth unrhyw ysgol lle y gallai fod yn ofynnol i'r athro weithio), am 1265 awr, a bydd yr oriau hynny yn cael eu dyrannu mewn ffordd resymol trwy gydol y diwrnodau hynny yn ystod y flwyddyn ysgol pan fydd gofyn i'r athro fod ar gael i weithio.'* (50.5)

**Ond yna ym mharagraffau 50.7 a 50.8 nodir**

*50.7 Yn ogystal â'r oriau y mae'n ofynnol i athro fod ar gael i'w gweithio o dan baragraff 50.5 neu 50.6, rhaid i athro weithio'r cyfryw oriau ychwanegol rhesymol ag y bydd angen eu gweithio o bosibl er mwyn galluogi'r athro i gyflawni ei ddyletswyddau proffesiynol mewn ffordd effeithiol, gan gynnwys, yn arbennig, cynllunio a pharatoi cyrsiau a gwersi; ac asesu, monitro, cofnodi ac adrodd am anghenion dysgu, cynnydd a chyflawniadau disgyblion a neilltuwyd.*
*50.8 Ni chaiff y cyflogwr bennu faint o'r oriau ychwanegol y cyfeirir atynt ym mharagraff 50.7 y mae'n rhaid eu gweithio neu pryd y mae'n rhaid gweithio'r oriau hyn.'*
**I bob pwrpas nid oes terfyn i waith athrawon.**

- **Mae arweinwyr wedi eu heithrio o'r paragraffau uchod, felly nid oes ganddynt unrhyw lun ar 'oriau penodedig'.**

**Rydym yn galw am:**

- **Ffiniau pendant a statudol i oriau gwaith athrawon (gan gynnwys arweinwyr), gan roi sylw i batrymau megis patrwm 35 awr yr wythnos yr Alban**
- **Mwy o hyblygrwydd i athrawon o ran oriau gwaith, er mwyn denu mwy i'r proffesiwn ac fel bod y proffesiwn yn cymharu'n ffafriol â phroffesiynau eraill**
- **Llai o oriau cyswllt a mwy o amser CPA (Cynllunio, Paratoi ac Asesu) – cynyddu CPA o'r 10% presennol i 20%**
- **Mwy na'r 20% o amser CPA i athrawon newydd a chynyddu CPA hefyd i'r sawl sydd yn gyfrifol am Faes Dysgu a Phrofiad o fewn y Cwricwlwm i Gymru**
- **Llai o fiwrocratiaeth a mwy o amser i ganolbwyntio ar ddysgu ac addysgu**
- **Pob hyfforddiant (gan gynnwys hyfforddiant CBAC) o fewn oriau ysgol/coleg ac mewn lleoliad hygyrch**

---

# CYLLID YSGOLION

Sicrhau bod ein hysgolion yn cael eu cyllido'n deg,
fel bod digon o staff a digon o adnoddau

**Y sefyllfa bresennol:**

- **Mae hi'n argyfwng ar ysgolion ar hyn o bryd, gyda Phenaethiaid yn dweud nad oes modd rhedeg ysgol yn ddiogel ar y gyllideb sydd ganddynt**
- **Heb arian wrth gefn, mae ysgolion yn gorfod torri gwasanaethau allweddol, lleihau lefelau staffio**
- **O ganlyniad, mae'r gyfradd athro:disgybl wedi lleihau**
- **Mae chwyddiant yn golygu bod costau gwresogi ysgolion a chostau adnoddau wedi cynyddu'n sylweddol**
- **Yn yr un modd, mae'r gofynion ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol) wedi cynyddu mewn ysgolion**
- **Mae pwysau ar ysgolion i ddarparu mwy o gymorth iechyd meddwl a mwy o gefnogaeth i ddysgwyr o gartrefi difreintiedig**
- **Gyda'r pwysau cynyddol, mae absenoldeb staff yn cynyddu ac o ganlyniad i hyn mae mwy o gostau o ran athrawon llanw**
- **Mae mentrau newydd e.e. Cwricwlwm i Gymru, TGAU newydd yn golygu bod angen adnoddau newydd – ac wrth gwrs, mae hyn yn gostus**
- **Mae sgiliau llythrennedd a rhifedd rhai disgyblion wedi gwaethygu'n enbyd ers y pandemig, ac mae angen ymyraethau dwys arnynt – mae'r ymyraethau hyn yn ychwanegu at gostau**

**Rydym yn galw am:**

- **Gyllid digonol i ysgolion, a fydd yn eu galluogi i ddarparu cyfradd athro:disgybl priodol**
- **Sicrhau bod gofynion disgyblion ag ADY yn cael eu hariannu'n llawn**
- **Rhoi sylw i ddifreintedd a gwneud yn siŵr nad oes yr un disgybl yn cael ei amddifadu o addysg o'r safon orau oherwydd ei gefndir**
- **Sicrhau bod 'codiad cyflog sy'n cael ei ariannu'n llawn' yn golygu hynny i bob ysgol unigol ac nad yw'r arian a ddyrennir i ysgolion yn seiliedig ar gyfartaleddau**
- **Partneriaeth gymdeithasol gref rhwng ysgolion ac Awdurdodau Lleol ym maes cyllido ysgolion**
- **Sicrhau cysondeb ledled Cymru, gyda phawb yn gweithio o fewn yr un amodau cyllidol**

01970 639950 ucac@ucac.cymru ucac.cymru

# AMODAU GWAITH

Sicrhau bod ein hysgolion yn cael eu cyllido'n deg,
fel bod digon o staff a digon o adnoddau

---

**Y sefyllfa bresennol:**

- **Mae addysgwyr ledled Cymru yn cyfeirio at ddirwyiad enbyd yn ymddygiad ac agwedd plant a phobl ifanc, sy'n golygu bod cyflwyno gwers yn gallu bod yn frwydr barhaus**
- **Mae yna ddiffyg parch at addysgwyr ymysg rhai rhieni a phenderfyniadau ysgolion a cholegau yn cael eu herio yn rheolaidd**
- **Yn sgil digwyddiadau diweddar yn ymwneud â chyllyll, mae addysgwyr yn poeni'n gynyddol am eu diogelwch**
- **Mae'r modd y portreadir addysgwyr ar y cyfryngau yn gallu bod yn negyddol**
- **Mae llwyth gwaith athrawon yn trymhau am nifer o resymau. Yn eu plith mae'r canlynol:**

  I. **Niferoedd mewn dosbarthiadau yn cynyddu (oherwydd y sefyllfa gyllidol)**
  II. **Yr angen i baratoi deunyddiau ar gyfer cyrsiau newydd**
  III. **Cyrsiau newydd yn cynnwys mwy o asesiadau diarholiad**
  IV. **Llai o arian ar gyfer ymyriadau e.e. llythrennedd a rhifedd**
  V. **Cynnydd mewn problemau cymdeithasol a llai o wasanaethau i helpu dysgwyr, oherwydd toriadau cyllidol**

- **O ganlyniad i'r amodau gwaith heriol, presennol, mae lleihad yn nifer yr athrawon - lleihad o 1.9% rhwng 2024 a 2025**

**Rydym yn galw am:**

- **Sicrhau camau pendant i fynd i'r afael â phroblemau ymddygiad ar draws yr holl ystod oedran**
- **Sicrhau camau pendant i fynd i'r afael â llwyth gwaith athrawon**
- **Mwy o barch at addysgwyr gan rieni a'r wasg**
- **Canllawiau cenedlaethol ar gyfer rhieni – y disgwyliadau a'r camau i'w cymryd os ydynt am gyfathrebu/cysylltu â'r ysgol**
- **Sicrhau cyllid digonol i ysgolion**
- **Amser i athrawon allu cyflawni unrhyw ofynion ychwanegol o ran cyflwyno cyrsiau newydd neu gwblhau asesiadau diarholiad**
- **Llai o fiwrocratiaeth**
- **Sicrhau bod cefnogaeth i ddysgwyr ADY o fewn y dosbarth**
- **Sicrhau gwell dulliau o fesur llwyddiant a pheidio â dibynnu'n unig ar ddata**

---

# CYMRAEG

Sicrhau bod statws haeddiannol i'r Gymraeg a bod cyfleoedd realistig a gwerthfawr i hybu ac ehangu'r defnydd ohoni

**Y sefyllfa bresennol:**

- **Addysgwyr sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn gorfod mynd ati i addasu deunyddiau Saesneg neu baratoi deunyddiau o'r newydd**
- **Adnoddau ar gyfer arholiadau TGAU newydd yn cyfeirio at ffynonellau Saesneg ac yn anwybyddu deunyddiau sydd eisoes yn bodoli yn y Gymraeg**
- **Prinder addysgwyr i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a phrinder addysgwyr Cymraeg fel pwnc**

**Rydym yn galw am:**

- **Gydnabyddiaeth ariannol i'r sgil o allu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**
- **Adnoddau drwy gyfrwng y Gymraeg ar yr un pryd ag adnoddau drwy gyfrwng y Saesneg – sicrhau parch a statws i'r Gymraeg**
- **Gweithlu digonol sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac sy'n gallu hybu'r Gymraeg yn eu hysgolion a'u colegau. Ar hyn o bryd, tua 33.5% o athrawon ysgol sy'n gallu siarad Cymraeg a 26.9% sy'n nodi eu bod yn gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**
- **Cefnogaeth a thegwch i'r Gymraeg**
- **Hyfforddiant AGA (Addysg Gychwynnol Athrawon) a fydd yn cynnwys uned dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a phob hyfforddiant AGA yn cynnwys hyfforddiant ieithyddol i gyflwyno/gloywi sgiliau yn y Gymraeg**
- **Gweld mwy o ddysgwyr yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg**
- **Pob plentyn yng Nghymru i gael y cyfle i dderbyn addysg Gymraeg**
- **Gweld cynllun radical i sicrhau bod ysgolion yng Nghymru yn wir ddwyieithog, a hynny o fewn cyfnod penodol (heb fod yn rhy hir).**

**Diddorol yw darllen y dyfyniadau isod sy'n sôn am gyflwr byd addysg yng Nghymru:**

*'Mae yna brinder athrawon gwyddoniaeth yn ein hysgolion uwchradd ac nid yw'n argoeli y bydd y sefyllfa'n gwella yn ystod y blynyddoedd nesaf. Yr hyn y dylai'r llywodraeth bresennol ei gydnabod yw fod yr amodau gwaith a'r safon cyflog sydd ar gael yn y diwydiannau technolegol newydd i'r sawl sy'n meddu ar radd mewn gwyddoniaeth yn llawer gwell na'r hyn sy'n cael ei gynnig i'r un person os yw'n penderfynu dewis gyrfa fel athro neu athrawes. Os yw'r Llywodraeth am lwyddo i ddenu mwy o wyddonwyr graddedig i fod yn athrawon yn ein hysgolion mae'n rhaid iddi hefyd wella, yn sylweddol, amodau gwaith a chyflogau athrawon.' (Gorffennaf 1985 R. Silyn Hughes)*
*'Os yw'r Llywodraeth am ein hargyhoeddi ynglŷn â diffuantrwydd ei blaengarwch addysgol honedig, wel, cyllid amdani. Dechrau a diwedd y gân ydyw'r geiniog'. (Ebrill 1986, G. Wyn James)*
*'Daeth diffiniad o beth yw Ysgol Gymraeg yn allweddol gyda'r Llywodraeth yn newid ei diffiniad dro ar ôl tro.' (Medi 1988)*

**Mae'r dyfyniadau uchod yn ddyfyniadau o'r wythdegau, ond eto maent yr un mor wir ag yr oeddent bron i ddeugain mlynedd ar ôl iddynt gael eu datgan. Mae'n amlwg nad yw materion creiddiol i sicrhau llwyddiant addysg wedi eu datrys yn ystod y degawdau.**

**Addysg yw'r allwedd i ddyfodol gwell – mae buddsoddi ynddi yn fuddsoddiad yn ein plant, ein cymunedau, a'n cenedl. Os ydym am sicrhau dyfodol llwyddiannus a ffyniannus i Gymru, rhaid rhoi addysg ein plant a'n pobl ifanc yn ganolog, gan sicrhau'r amodau gorau posibl i'n hathrawon. Dim ond wrth gynnig yr amodau gorau i'n hathrawon y gallwn sicrhau'r amodau gorau i'n disgyblion.**

**Rydym wedi clywed digon o addewidion am wella amodau gwaith i athrawon. Nawr rydym yn galw ar y Llywodraeth nesaf i weithredu'n bendant ac yn effeithiol gan sicrhau canlyniadau gwirioneddol.**

01970 639950 ucac@ucac.cymru ucac.cymru

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

01970 639950 ucac@ucac.cymru ucac.cymru